# WILLIAMS, JOHN (1760 - 1826), clerigwr ac ysgolfeistr

**Enw:** John Williams
**Dyddiad geni:** 1760
**Dyddiad marw:** 1826
**Rhiant:** John Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr ac ysgolfeistr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg; Hanes a Diwylliant
**Awdur:** William Llewelyn Davies

mab John Williams, goruchwyliwr stad Gwydir, Llanrwst. Cafodd ei addysg yng Ngholeg Iesu, Rhydychen (ymaelodi 15 Mai 1777, yn 17 oed; B.A., 1781; M.A.; cymrawd o'r coleg). Ordeiniwyd ef 19 Medi 1784, a'i drwyddedu i wasnaethu yng nghapelwriaeth ysgol rad Llanrwst ac yn ' ddarlithydd '; yr oedd hefyd yn gurad Betws-y-coed ac yn gurad parhaol Dolwyddelan a Chapel Curig. Ar 25 Awst 1802, cafodd reithoraeth Llanbedr-y-cennin a Chaerhun; fe'i dilynwyd yn ysgol Llanrwst gan Edmund Davies yn 1812. Bu farw yn 1826 (claddwyd ef 9 Hydref, yn Llanbedr-y-cennin), 'yn 66 oed,' meddai carreg ei fedd. Coffeir John Williams oherwydd ei ddiddordeb dwfn yn llenyddiaeth a hanes Cymru ac am iddo fod yn foddion i gadw rhan helaeth o lythyrau a phapurau a dogfennau teulu Wynniaid Gwydir - am yr hanes gweler y rhagymadrodd i *Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers* a gyhoeddwyd gan LL.G.C. yn 1926; daeth cyfran arall i'r Llyfrgell Genedlaethol o gasgliad Paul Panton Plasgwyn, Pentraeth, sir Fôn, a oedd yn gyfoeswr iddo. John Williams bioedd y llythyrau gan Goronwy Owen a gyhoeddwyd gan J. H. Davies yn 1924; cadwodd hefyd rai o lythyrau Edward Owen, Warrington a oedd yn adnabod Goronwy Owen. O gasgliad John Williams y daeth N.L.W. MSS. 30-34, 58, 107, 109, 276, 302, 343-5.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


At y cyfeiriadau a roddwyd uchod ychwaneger A. Ivor Pryce, *Diocese of Bangor During Three Centuries, seventeenth to nineteenth century inclusive being a digest of the registers of the bishops* (1929)

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874)

cofysgrifau esgobaeth Bangor yn Ll.G.C.

Foster, *Alumni Oxonienses*

*Catalogue of Additional Manuscripts in the National Library of Wales*, i

*Llawysgrif Bangor yng Ngholeg y Gogledd, Bangor* 6457 yng Ngholeg y Gogledd


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6264378


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu